
# Empowering communities: Partnership approach to enhancing breastfeeding awareness and culture in low-prevalence socially deprived areas.

Rachel Evans (Public Health Wales) Eleanor Johnson and Bronwen Clatworthy (Breastfeeding Network) Rosy Phillips, Fay Fear, Claire Turbutt, Sarah Jenkins (Cwm Taf Morgannwg University Health Board) Carla Baldwin, Bethan Thorn, Joanne Foley, Florence Beach, Eryl Powell (Aneurin Bevan University Health Board) Amy Brown , Karen Hall (Swansea University)

## Background & Aim

**"Breastfeeding is… linked to the prevention of major health inequalities. The provision of human milk is the most accessible and cost-effective activity available to public health."[1]**

**Child Poverty Strategy for Wales 2024**




- Babies in the lowest quintile according to the Welsh Index of Multiple Deprivation (WIMD) are the least likely to be breastfed.
- This gap has been persistent over time.
- PHW research shows to improve rates we need to **shift social norms** in these communities.

**Partnership working**

**"Each partner brought specific knowledge and skill [enabling] goals to be achieved in a rapid timeframe… the strongest breastfeeding support is delivered by… different skills and experiences coming together."**

the Breastfeeding network

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Swansea University Prifysgol Abertawe

**Three interventions delivered in parallel in two identified target communities with characteristics of deprivation and low breastfeeding prevalence. A short term project funded by Welsh Government's Child Poverty: Innovation and Supporting Communities Grant.**

## Elements and outcomes of the project

| Element | Reason | Outcome | "Ripple effect" |
|---|---|---|---|
| Peer support training- two cohorts of Breastfeeding Helpers and one of Breastfeeding Supporters. | • Fill gaps in breastfeeding support in target communities.<br>• Recruit volunteers reflective of their communities.<br>• Provide opportunities for accredited qualifications.<br>• Increase Welsh speaking capacity on the NBH. | 22 Breastfeeding Helpers trained, 17 from target communities of Newport and Rhondda. Breastfeeding Supporter cohort included Welsh speakers. | • Five volunteers have gone on to training or employment within the NHS.<br>• Breastfeeding group established in Rhondda, where there was no group previously.<br>• Local politicians attended celebration events, further raising awareness of breastfeeding as a public health priority..<br>• Volunteers attending postnatal wards. |
| Recruitment of short term part time posts for promotion of the National Breastfeeding Helpline (NBH). | • Call data from the BfN demonstrated lower than expected use within the target areas.<br>• Increased use could reduce calls to local NHS services. | BfN data demonstrated an increase in calls over the six month period of the project. | • Promoters raised awareness of BfN Breastfeeding Friendly Scheme and signed up local facilities.<br>• NBH to be included in future parent information produced by Public Health Wales. |
| Delivery of First Milk Matters training to non health staff working with families. | • To provide access to training for staff outside the health system.<br>• To increase community knowledge of and support for breastfeeding. | 35 staff attended training and post course evaluations showed increased knowledge and confidence around infant feeding. | • A community baby bank changed the way formula was distributed.<br>• A local family hub created breastfeeding friendly space. |

## Evaluation

**"People are starting to be a bit more intrigued about breastfeeding and want to find out a little bit more."** ***Infant feeding lead***

**"I'm not alone and have people to go to when I need support."** ***Mother, who accessed new support group***

- Measurable outcomes noted above demonstrate successful delivery of individual project elements.
- Interviews with participants in different roles were also undertaken, demonstrating benefit to the project partners, volunteers, families and First Milk Matters attendees.
- All groups involved reported an impact on breastfeeding culture in the target communities, and families now had access to support in those areas where bottle feeding was the norm.
- It was a limitation of the project that the funding was short term. The evaluation report noted that breastfeeding interventions take time to embed and impacts e.g. on breastfeeding rates are incremental over time.
- ABUHB has funded a further year of training and supervision for peer support, aligning with focused work on breastfeeding as part of a whole system approach to a healthy weight.

**"Over time it is likely that this will increase perceptions of breastfeeding in these communities where bottle feeding is typically the norm. This will filter through into increased breastfeeding initiation and visibility, shared experiences where breastfeeding is now included and more common, and ultimately enhanced breastfeeding rates."**

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

1 https://www.gov.wales/child-poverty-strategy-wales-2024-html


# Grymuso cymunedau: Dull partneriaeth o wella ymwybyddiaeth a diwylliant bwydo ar y fron mewn ardaloedd difreintiedig yn gymdeithasol lle mae'r cyffredinrwydd yn isel.

Rachel Evans (Public Health Wales) Eleanor Johnson and Bronwen Clatworthy (Breastfeeding Network) Rosy Phillips, Fay Fear, Claire Turbutt, Sarah Jenkins (Cwm Taf Morgannwg University Health Board) Carla Baldwin, Bethan Thorn, Joanne Foley, Florence Beach, Eryl Powell (Aneurin Bevan University Health Board) Amy Brown , Karen Hall (Swansea University)

## Y cefndir a'r nod

**" Mae bwydo ar y fron… yn gysylltiedig ag atal anghydraddoldebau iechyd sylweddol. Darparu llaeth y fron yw'r gweithgaredd mwyaf hygyrch a chost-effeithiol sydd ar gael o ran iechyd y cyhoedd."[1]**

**Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024**




- Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC), babanod yn y cwintel isaf yw'r lleiaf tebygol o gael eu bwydo ar y fron.
- Mae'r bwlch hwn wedi bod yn barhaus dros amser.
- Mae ymchwil Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos bod angen i ni **newid y normau cymdeithasol** yn y cymunedau hyn er mwyn gwella'r cyfraddau.

**Gweithio mewn partneriaeth**

**"Daeth pob partner â'r wybodaeth a'r sgiliau penodol [a oedd yn galluogi] cyflawni nodau yn gyflym... darperir y gefnogaeth gryfaf i fwydo ar y fron drwy... wahanol sgiliau a phrofiadau yn dod at ei gilydd."**

**Tair ymyrraeth a gyflwynwyd ar yr un pryd mewn dwy gymuned darged a nodwyd â nodweddion amddifadedd a chyfradd isel o fwydo ar y fron. Prosiect tymor byr a ariennir gan Grant Arloesi Tlodi Plant a Chefnogi Cymunedau Llywodraeth Cymru.**

## Elfennau a chanlyniadau'r prosiect

| Elfen | Rheswm | Canlyniad | "Effeithiau ehangach" |
|---|---|---|---|
| Hyfforddiant cefnogaeth gan gymheiriaid - dwy garfan o Gynorthwywyr Bwydo ar y Fron ac un garfan o Gefnogwyr Bwydo ar y Fron. | • Llenwi bylchau cefnogaeth bwydo ar y fron mewn cymunedau targed.<br>• Recriwtio gwirfoddolwyr sy'n adlewyrchu eu cymunedau.<br>• Darparu cyfleoedd ar gyfer cymwysterau achrededig.<br>• Cynyddu capasiti siaradwyr Cymraeg ar y Llinell Gymorth Bwydo ar y Fron Genedlaethol (NBH). | 22 o Gynorthwywyr Bwydo ar y Fron wedi'u hyfforddi - 17 ohonynt o Gasnewydd a Rhondda (cymunedau targed).<br>Roedd y garfan Cefnogwyr Bwydo ar y Fron yn cynnwys siaradwyr Cymraeg. | • Mae pump o wirfoddolwyr wedi cael hyfforddiant neu gyflogaeth o fewn y GIG.<br>• Grŵp bwydo ar y fron wedi'i sefydlu yn Rhondda, lle nad oedd grŵp o'r blaen.<br>• Roedd gwleidyddion lleol yn bresennol mewn digwyddiadau dathlu, a oedd wedi codi ymwybyddiaeth ymhellach o fwydo ar y fron fel blaenoriaeth iechyd y cyhoedd.<br>• Gwirfoddolwyr yn bresennol mewn wardiau ôl-enedigol. |
| Recriwtio swyddi rhan-amser tymor byr i hyrwyddo'r Llinell Gymorth Bwydo ar y Fron Genedlaethol (NBH). | • Dangosodd data galwadau gan y BfN ddefnydd is na'r disgwyl o fewn yr ardaloedd targed.<br>• Gallai defnyddio'r llinell gymorth yn fwy leihau galwadau i wasanaethau lleol y GIG. | Dangosodd data BfN gynnydd mewn galwadau dros gyfnod chwe mis y prosiect. | • Cododd yr hyrwyddwyr ymwybyddiaeth o Gynllun Cyfeillgar i Fwydo ar y Fron BfN a chofrestron nhw gyfleusterau lleol â'r cynllun.<br>• Cynnwys NBH yn yr wybodaeth i rieni a gynhyrchir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn y dyfodol. |
| Cyflwyno'r hyfforddiant First Milk Matters i staff nad ydynt yn staff iechyd sy'n gweithio gyda theuluoedd. | • Darparu mynediad at hyfforddiant i staff y tu allan i'r system iechyd.<br>• Cynyddu'r wybodaeth a'r gefnogaeth i'r gymuned o ran bwydo ar y fron. | Aeth 35 o staff i'r hyfforddiant a dangosodd gwerthusiadau ar ôl y cwrs gynnydd mewn gwybodaeth a hyder ynghylch bwydo babanod. | • Newidiodd banc babanod cymunedol y ffordd y dosbarthwyd llaeth fformiwla.<br>• Creodd canolfan deuluol leol ofod sy'n addas i fwydo ar y fron. |

## Evaluation

"Mae pobl yn dechrau bod ychydig yn fwy chwilfrydig am fwydo ar y fron ac eisiau darganfod ychydig yn fwy amdano." *Arweinydd bwydo babanod*

""Dydw i ddim ar fy mhen fy hun ac mae gen i bobl i droi atyn nhw pan fyddaf angen cymorth." *Mam, a gafodd fynediad at grŵp cymorth newydd*

- Mae'r canlyniadau mesuradwy a nodwyd uchod yn dangos bod elfennau unigol y prosiect wedi'u cyflawni'n llwyddiannus.
- Cynhaliwyd cyfweliadau hefyd â chyfranogwyr mewn gwahanol rolau, gan ddangos y budd i bartneriaid y prosiect, gwirfoddolwyr, teuluoedd a'r sawl a oedd yn bresennol ar yr hyfforddiant First Milk Matters.
- Adroddodd pob grŵp a oedd yn rhan o'r broses yr effaith ar ddiwylliant bwydo ar y fron yn y cymunedau targed, ac roedd gan deuluoedd fynediad at gefnogaeth bellach yn yr ardaloedd hynny lle'r oedd bwydo â photel yn norm.
- Un o gyfyngiadau'r prosiect oedd bod y cyllid yn un tymor byr. Nododd yr adroddiad gwerthuso fod ymyriadau bwydo ar y fron yn cymryd amser i wreiddio a bod yr effeithiau, e.e. ar gyfraddau bwydo ar y fron, yn cynyddu'n raddol dros amser.
- Mae BIPAB wedi ariannu blwyddyn bellach o hyfforddiant a goruchwyliaeth ar gyfer cefnogaeth gan gymheiriaid, sy'n cyd-fynd â'r gwaith ffocws ar fwydo ar y fron fel rhan o ddull system gyfan tuag at bwysau iach.

**"Dros amser, mae'n debygol y bydd hyn yn cynyddu'r canfyddiadau o fwydo ar y fron yn y cymunedau hyn lle mae bwydo â photel fel arfer yn norm. Bydd hyn yn treiddio i gynnydd o ran cychwyn bwydo ar y fron a'i weledd, profiadau a rennir lle mae bwydo ar y fron bellach wedi'i gynnwys ac yn fwy cyffredin, ac yn y pen draw, cyfraddau bwydo ar y fron gwell."**

1 https://www.llyw.cymru/strategaeth-tlodi-plant-cymru-2024-html